# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Dirybudd)

Pearl Dental Care / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad arolygu: 04 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 04 Tachwedd 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: AGIC@llyw.cymru**

**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-80082-398-3



© Hawlfraint y Goron 2020

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ..... 7

   Darparu gofal diogel ac effeithiol ..... 8

4. Beth nesaf? ..... 12

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..... 13

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad 14

   Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ..... 15

   Atodiad C – Cynllun gwella ..... 19

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

# Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

# Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

| | |
|---|---|
| Rhoi sicrwydd: | Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal |
| Hybu gwelliant: | Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da |
| Dylanwadu ar bolisi a safonau: | Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Pearl Dental Care yn 2 Main Road, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1PY sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 04 Awst 2020.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn mewn ymateb i bryderon a adroddwyd i AGIC yn ymwneud â safonau glendid a threfniadau atal a rheoli heintiau amhriodol yn y practis deintyddol. O ganlyniad i natur y pryderon hyn, roedd AGIC yn teimlo bod angen cynnal arolygiad dirybudd er mwyn gweld a oedd yr honiadau hyn yn wir.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol. Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill mewn perthynas ag arferion gorau wrth atal a rheoli heintiau.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod cyflwr yr ystafell ddihalogi yn annerbyniol ac nad oedd yn addas at y diben. Roedd cryn dipyn o lwydni, baw a llwch i'w weld ac roedd yn amlwg bod y gwasanaeth wedi gadael i gyflwr yr ystafell ddirywio dros gyfnod o amser, ac roedd yn peri risg ddifrifol i iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion a oedd yn cael eu trin yn y practis.

At hynny, gwelsom fod angen gwella'r trefniadau atal a rheoli heintiau ar unwaith er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau arferion gorau sy'n sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu'n llawn rhag y risg o groes-heintio.

O ganlyniad i natur ein pryderon a pha mor ddifrifol oeddent, ymdriniwyd â'r materion hyn gan ddefnyddio ein proses diffyg cydymffurfio a gorfodi. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad i atal ei gofrestriad nes y byddai'n cymryd camau unioni brys. Wedi hynny, cafodd AGIC sicrwydd digonol ynghylch y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol, a chodwyd y gwaharddiad yn effeithiol o 10 Medi 2020.

Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym a'r camau a gymerwyd wedi'u nodi yn Atodiad A ac Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Pearl Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion ym Mhentre'r Eglwys a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae Pearl Dental Care mewn adeilad sydd yng nghanol teras ac mae wedi'i addurno'n draddodiadol. Mae'r holl gyfleusterau ar y llawr gwaelod ac mae un ddeintyddfa ac ystafell ddihalogi ar wahân yng nghefn y safle.

Wrth i ni fynd o gwmpas y practis, gwelsom fod y dderbynfa a'r ddeintyddfa yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Fodd bynnag, wrth arolygu'r ystafell ddihalogi, gwelsom nad oedd ei chyflwr yn addas at y diben. Mae hyn am fod cryn dipyn o lwydni i'w weld mewn sawl man, gan gynnwys ar y growt rhwng y teils uwchben yr wynebau gweithio ac ar y waliau allanol o dan yr wynebau gweithio lle roedd y cywasgydd[1] deintyddol yn cael ei gadw.

Gwelsom lwydni ar sêl yr oergell yn yr ystafell ddihalogi hefyd a bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio yn yr ystafell ddihalogi yn hytrach na mewn cwpwrdd glanhau arbennig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddarllen adroddiad a luniwyd gan Bowen Dental Engineering ym mis Mehefin 2020 ar ôl i'r cywasgydd deintyddol gael ei wasanaethu. Roedd yr adroddiad yn nodi bod angen cael pot gwahanu amalgam newydd ar gyfer y cywasgydd ar unwaith er mwyn sicrhau nad oedd gronynnau amalgam niweidiol o'r dŵr gwastraff yn mynd i mewn i'r system garthffosiaeth. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd pot gwahanu amalgam newydd wedi cael ei osod eto.

Mae'r materion hyn yn peri risg ddifrifol i iechyd a diogelwch staff a chleifion yn y practis. Ceir rhagor o fanylion am ein pryderon a'r camau a gymerodd y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol yn Atodiad A ac Atodiad B.

[1] Peiriant sy'n glanhau ac yn sychu ac yn storio aer ar gyfer offer pweredig a theclynnau llaw a ddefnyddir gan ddeintyddion wrth drin cleifion yw cywasgydd deintyddol.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom fod nifer o bolisïau ar gael a oedd yn amlinellu'r ffordd y dylid cadw'r practis a'r deintyddfeydd yn lân a ffyrdd o helpu i leihau'r risg o groes-heintio i'r cleifion a'r staff.

Gwnaethom fwrw golwg dros gofnodion hyfforddiant y staff clinigol a gwelsom eu bod wedi cwblhau'r swm gofynnol o hyfforddiant y gellir ei ddilysu ar ddiheintio a dihalogi yn eu cylch pum mlynedd blaenorol, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau er mwyn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[2]. Fodd bynnag, ni allai'r practis gadarnhau ei fod wedi cynnal yr archwiliad hwn am nad oedd dyddiad ar y ddogfen. Rydym yn argymell y dylai archwiliadau rheoli heintiau o'r fath gael eu cynnal unwaith y flwyddyn o leiaf ac y dylai'r ddogfen gael ei dyddio'n glir a dylai camau gael eu cofnodi'n glir.

Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol yn dilyn llwybr dihalogi budr i lân. Fodd bynnag, roedd yr ardal benodedig a glustnodwyd ar gyfer derbyn offer halogedig yn anniben. Roedd eitemau eraill hefyd yn cael eu storio'n ddiangen ar silffoedd ar y waliau.

Roedd baw a llwch ar silffoedd annibynnol a oedd yn sefyll ar y llawr a ddefnyddiwyd i storio eitemau megis teclynnau cymryd ôl dannedd[3]. Roedd baw a llwydni ar rai o'r eitemau a oedd yn cael eu storio ar y silffoedd hefyd.

Roedd peiriant glanhau uwchsain ar gael er mwyn helpu i sterileiddio offer deintyddol cyn iddynt gael eu glanhau â llaw, ond cawsom wybod nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Os bydd y peiriant glanhau uwchsain yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, rydym yn argymell y dylai'r practis gadw cofnod o'r holl

---

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3] Defnyddir teclyn cymryd ôl dannedd i gludo, cyfyngu a rheoli'r deunydd a ddefnyddir i wneud mowld o ddannedd cleifion a'r feinwe feddal sydd yn eu ceg.

brofion a gwaith cynnal a chadw gofynnol a wneir er mwyn sicrhau bod y peiriant yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Gwelsom dystiolaeth fod yr awtoclaf yn y practis wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar. Roedd cofnodydd data ar yr awtoclaf er mwyn monitro a chofnodi data ar gyfer pob cylch sterileiddio yn annibynnol. Fodd bynnag, ni allai'r staff gadarnhau pryd roedd gwybodaeth y cofnodydd data wedi cael ei lawrlwytho a'i hadolygu ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y peiriant wedi bod yn sterileiddio'n effeithiol. Ni allai'r staff ddangos unrhyw lawrlwythiadau hanesyddol ar eu cyfrifiadur i ni chwaith.

Gwelsom fod llyfr nodiadau'n cael ei ddefnyddio i gofnodi'r gwiriadau dyddiol a wnaed i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu sterileiddio'n ddigonol. Argymhellwn y dylid defnyddio cofnodlyfr penodedig er mwyn cofnodi cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw gyfarpar diogelu personol y gallai'r staff ei ddefnyddio yn ystod y broses ddihalogi (e.e. menyg untro, ffedogau, cyfarpar amddiffyn y llygaid).

Yn y ddeintyddfa, gwelsom rai deunyddiau deintyddol a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben; gwnaethom ofyn i'r staff clinigol gael gwared ar yr eitemau hyn o'r ddeintyddfa yn ystod yr arolygiad. Hefyd, gwelsom offer deintyddol a oedd wedi'u dihalogi nad oeddent wedi cael eu rhoi mewn bag priodol ac nad oedd dyddiad arnynt.

Roedd y problemau a ganfuwyd gennym yn golygu nad oedd y practis yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau WHTM 01-05 ac ni allem fod yn sicr bod yr offer deintyddol amldro a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis yn ddigon glân a sterilaidd ar ddiwedd y broses ddihalogi na'u bod wedi cael eu cadw mewn cyflwr boddhaol yn glinigol nes iddynt gael eu defnyddio. Ceir rhagor o fanylion am ein pryderon a'r camau a gymerodd y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol yn Atodiad A ac Atodiad B.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r ddogfen gael ei dyddio a dylai unrhyw ganlyniadau a chamau gweithredu gael eu cofnodi'n glir.

Rhaid i'r practis gadw cofnod o'r holl brofion a gwaith cynnal a chadw gofynnol a wneir mewn perthynas â'r peiriant glanhau uwchsain pan gaiff ei ddefnyddio i sterileiddio offer ymlaen llaw.

Rhaid defnyddio cofnodlyfr penodedig i gofnodi'r gwiriadau dyddiol a wneir i fonitro cydymffurfiaeth â'r broses sterileiddio.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a’u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae’n eu cymryd i fynd i’r afael â’r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai’r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir pryd a sut yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau’r arolygiad hwn, dylai’r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd yn ystod ein harolygiad o ganlyniad i'r effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Yn ystod yr arolygiad gwelsom dystiolaeth nad oedd Pearl Dental Care yn cydymffurfio â safonau priodol o ran glendid a rheoli heintiau. | Mae achos rhesymol i gredu bod pobl wedi wynebu risg, ac yn wynebu risg, o ddal haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. | Yn dilyn yr arolygiad, penderfynodd AGIC atal cofrestriad Pearl Dental Care ar unwaith am 30 diwrnod er mwyn i'r practis allu cymryd y camau gofynnol i leihau neu ddileu'r risg o niwed. | Ymwelodd AGIC â'r practis deintyddol eto ar 07 Medi 2020 er mwyn arolygu'r camau unioni a gymerwyd i wella amgylchedd yr ystafell ddihalogi. Cafodd AGIC ei sicrhau bod y gwelliannau a wnaed yn golygu y gellid cydymffurfio â safonau priodol o ran glendid a rheoli heintiau bellach. Gwnaeth AGIC ailsefydlu cofrestriad Pearl Dental Care yn effeithiol o 10 Medi 2020. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Pearl Dental Care

**Dyddiad arolygu:** 04 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid sicrhau bod amgylchedd yr ystafell ddihalogi yn bodloni'r safonau disgwyledig sy'n ofynnol er mwyn rhoi proses ddihalogi ar waith a fydd yn sicrhau bod offer deintyddol amldro yn ddiogel i'w defnyddio eto. Rhaid i hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>• Cael gwared ar yr holl lwydni, baw a llwch o waliau allanol, teils a deunyddiau a pheiriannau eraill;<br>• Glanhau'r basn golchi dwylo a chael hambyrddau offer deintyddol newydd; | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliadau 13(3)(b), 13(5), 13(6)(b) | Mae popeth wedi cael ei dynnu o'r ystafell gan adael waliau noeth, ac rydym wedi cael gwared ar y silffoedd/oergell bresennol.<br>Dechreuodd y landlord ar waith adeiladu er mwyn mynd i'r afael â dŵr a oedd yn dod i mewn o landeri a oedd wedi torri a gosod estyll/defnydd inswleiddio/cladin ar y wal fewnol er mwyn atal dŵr rhag dod i mewn yn y dyfodol.<br>Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd ystafell ddihalogi newydd yn cael ei | Tahir Din/ Pennaeth y Practis | Pythefnos |

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| • Glanhau silffoedd presennol neu gael rhai newydd;<br>• Glanhau deunyddiau a gwrthrychau sy'n cael eu storio ar y silffoedd budr ar hyn o bryd, cael gwared arnynt neu gael rhai newydd yn eu lle;<br>• Tacluso'r wynebau gweithio o gwmpas y mannau gweithio 'budr' a 'glân';<br>• Symud deunyddiau glanhau na ddylid eu storio yn yr ystafell ddihalogi.<br><br>Rhaid ystyried gwneud rhagor o waith unioni er mwyn sicrhau nad yw amgylchedd yr ystafell ddihalogi yn dirywio i'r fath raddau yn y dyfodol. | | gosod, gan gynnwys cypyrddau a basn newydd. Rydym wedi cael hambyrddau offer deintyddol newydd.<br><br>Ni fydd deunyddiau glanhau yn cael eu storio yn yr ystafell ddihalogi. | | |
| Rhaid i gyfarpar diogelu personol ar gyfer y broses ddihalogi fod ar gael i'r staff yn unol â chanllawiau arferion gorau. | | Rydym wedi prynu menyg gwaith tŷ trwchus newydd a bydd unrhyw gyfarpar diogelu personol sy'n weddill yn cael ei storio yn yr ystafell ddihalogi hefyd, yn unol â chanllawiau arferion gorau. | Theresa Pritchard/ Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Rhaid lawrlwytho ac adolygu'r data o'r cofnodydd data ar yr awtoclaf o leiaf unwaith yr wythnos, ond yn ddyddiol yn ddelfrydol, er mwyn cadarnhau bod yr awtoclaf yn gweithio | | Bydd y data o'r cofnodydd data yn cael eu hadolygu'n wythnosol. | Theresa Pritchard/ Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| yn ôl y bwriad ac felly'n sterileiddio offer deintyddol amldro yn effeithiol. | | | | |
| Rhaid gweithredu ar fyrder ar yr argymhellion o'r adroddiad ymweliad yn dilyn yr archwiliad diweddar o'r cywasgydd. | | Mae hidlydd bacteria a phot gwahanu newydd wedi cael eu gosod ar y modur sugno. | Theresa Pritchard/ Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r gwasanaeth gynnal gwiriadau rheolaidd a'u dogfennu er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir wrth redeg y practis deintyddol yn ddiogel (gan gynnwys cyffuriau brys) o fewn eu dyddiadau dod i ben unigol, yn unol â chanllawiau arferion gorau perthnasol. | | Gwneir gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod deunyddiau o fewn eu dyddiad dod i ben o hyd, a chaiff y rhain eu dogfennu. | Theresa Pritchard/ Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r holl offer deintyddol a gaiff eu sterileiddio gael eu pacio, eu dyddio a'u storio yn unol â chanllawiau arferion gorau. | | Mae'r offer deintyddol a oedd yn weddill, nad oeddent yn cael eu defnyddio, wedi cael eu symud o ddrôr y nyrs a'u storio. Mae'r holl offer deintyddol a gaiff eu sterileiddio yn cael eu pacio, eu dyddio a'u storio yn unol â chanllawiau arferion gorau. | Theresa Pritchard/ Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (priflythrennau):** **Tahir Din**

**Teitl swydd:** **Rheolwr Cofrestredig / Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **12 Awst 2020**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Pearl Dental Care

**Dyddiad arolygu:** 04 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r ddogfen gael ei dyddio a dylai unrhyw ganlyniadau a chamau gweithredu gael eu cofnodi'n glir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliadau 13(3)(b), 13(5), 13(6)(b) | Caiff archwiliadau blynyddol eu dyddio a chaiff canlyniadau/camau gweithredu eu cofnodi. | Theresa Pritchard/Rheolwr y Practis/ Pennaeth Dihalogi | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis gadw cofnod o'r holl brofion a gwaith cynnal a chadw gofynnol a wneir mewn perthynas â'r peiriant glanhau uwchsain pan gaiff ei ddefnyddio i sterileiddio offer ymlaen llaw. | | Rydym wedi prynu'r cofnodlyfr a argymhellwyd ar gyfer y peiriant glanhau uwchsain a chaiff ei ddiweddaru'n briodol. | Theresa Pritchard/Rheolwr y Practis/ Pennaeth Dihalogi | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid defnyddio cofnodlyfr penodedig i gofnodi'r gwiriadau dyddiol a wneir i fonitro cydymffurfiaeth â'r broses sterileiddio. | | Rydym wedi prynu'r cofnodlyfr a argymhellwyd a chaiff ei ddiweddaru'n briodol. | Theresa Pritchard/Rheolwr y Practis/ Pennaeth Dihalogi | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** **Tahir Din**

**Teitl swydd:** **Rheolwr Cofrestredig / Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **06 Hydref 2020**